*Argraffwyd yr Offeryn Statudol hwn yn lle'r OS sy'n dwyn yr un rhif ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

*This Statutory Instrument has been printed in substitution of the SI of the same number and is being issued free of charge to all known recipients of that Statutory Instrument.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 Rhif 778 (Cy.66)

# 2009 No. 778 (W.66)

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009

## The Local Health Boards (Establishment and Dissolution) (Wales) Order 2009

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn sefydlu chwe Bwrdd Iechyd Lleol newydd fel y darperir ar eu cyfer yn adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (2006 p.42) ac mae erthygl 4 yn nodi'r ardaloedd y sefydlir hwy ar eu cyfer. Mae'r Gorchymyn hefyd yn darparu yn erthyglau 5 a 6 ar gyfer swyddogaethau dros dro Byrddau Iechyd Lleol rhwng dyddiad eu sefydlu a'u dyddiad gweithredol ac yn nodi eu dyddiad cyfrifyddu.

Mae erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn dirymu ar 1 Hydref 2009 un ar hugain o'r ddau ar hugain o Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru.

Mae erthyglau 8 a 9 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud diwygiadau i'r Atodlen i Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 (2003/148 (Cy.18)) ("Gorchymyn 2003") er mwyn dileu o'r Atodlen honno enwau un ar hugain o Fyrddau Iechyd Lleol a ddiddymir o dan erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn. Bydd Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys yn parhau ar ei ffurf bresennol fel y'i sefydlwyd o dan Orchymyn 2003 ac mae'r diwygiadau a wneir o dan erthygl 9 yn adlewyrchu hyn.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi mewn cysylltiad â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Article 3 of this Order establishes six new Local Health Boards as provided for in section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (2006 c.42) and article 4 sets out the areas for which they are established. The Order also provides in articles 5 and 6 for interim functions of Local Health Boards between their establishment and operational dates and sets their accounting date.

Article 7 of this Order dissolves twenty-one out of the existing twenty-two Local Health Boards in Wales on 1 October 2009.

Articles 8 and 9 of this Order make amendments to the Schedule to the Local Health Boards (Establishment) (Wales) Order 2003 (2003/148 (W.18)) ("the 2003 Order") to remove from that Schedule the names of twenty-one Local Health Boards dissolved under article 7 of this Order. Powys Teaching Local Health Board will continue in its current form as established under the 2003 Order and the amendments made under article 9 reflect this.

A regulatory impact assessment has been prepared in connection with this Order. A copy can be obtained from the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

Mewn perthynas ag aelodaeth a chyfansoddiad Byrddau Iechyd Lleol, gweler Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/779 (Cy.67)).

In relation to the membership and constitution of Local Health Boards, see the Local Health Boards (Constitution, Membership and Procedures) (Wales) Regulations 2009 (S.I. 2009/779 (W.67)).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 778 (Cy.66)

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Mawrth 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *25 Mawrth 2009* |
| *Yn dod i rym* | *1 Mehefin 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 11, 203(9) a (10) a 204 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) a pharagraffau 11 a 12 o Atodlen 2 iddi yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1**.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mehefin 2009.

**Dehongli**

**2**. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "ardal Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board area*") yw'r ardal o Gymru y sefydlir Bwrdd Iechyd Lleol o dan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn ar ei chyfer;

ystyr "dyddiad diddymu" ("*dissolution date*") yw 1 Hydref 2009;

mae i'r ymadrodd "dyddiad gweithredol" yr ystyr a roddir i "*operational date*" ym mharagraff 11(2) o Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "dyddiad sefydlu" ("*establishment date*") yw 1 Mehefin 2009; ac

ystyr "prif ardal llywodraeth leol" ("*principal local government area*") yw prif ardal llywodraeth leol

(**1**) 2006 p.42.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No. 778 (W.66)

## NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Local Health Boards (Establishment and Dissolution) (Wales) Order 2009

| | |
|---|---|
| *Made* | *24 March 2009* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *25 March 2009* |
| *Coming into force* | *1 June 2009* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 11, 203(9) and (10) and 204 of and paragraphs 11 and 12 of Schedule 2 to the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**) make the following Order:

**Title and commencement**

**1**.—(1) The title of this Order is the Local Health Boards (Establishment and Dissolution) (Wales) Order 2009.

(2) This Order comes into force on 1 June 2009.

**Interpretation**

**2**. In this Order—

"dissolution date" ("*dyddiad diddymu*") means 1 October 2009;

"establishment date" ("*dyddiad sefydlu*") means 1 June 2009;

"Local Health Board area" ("*ardal Bwrdd Iechyd Lleol*") means the area of Wales for which a Local Health Board under article 3 to this Order is established;

"operational date" ("*dyddiad gweithredol*") has the meaning assigned to it in paragraph 11(2) of Schedule 2 to the National Health Service (Wales) Act 2006; and

"principal local government area" ("*prif ardal llywodraeth leol*") means a principal local

(**1**) 2006 c.42.

yng Nghymru fel y'i disgrifir yn Rhannau I a II o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**).

**Sefydlu Byrddau Iechyd Lleol**

**3**. Yn effeithiol o'r dyddiad sefydlu, sefydlir y chwe Bwrdd Iechyd Lleol a restrir yng ngholofn 1 yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac fe'u gelwir wrth yr enwau a bennir ar eu cyfer yn yr Atodlen honno.

**Ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol**

**4**.—(1) Mae pob ardal Bwrdd Iechyd Lleol yn cyfateb i'r prif ardaloedd llywodraeth leol a bennir ar ei gyfer yng ngholofn 2 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Os yw'r prif ardaloedd llywodraeth leol a bennir ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol o dan baragraff (1) uchod yn cael eu hamrywio, yna mae ardal y Bwrdd Iechyd Lleol i gael ei hamrywio yn unol â hynny.

(3) Nid yw paragraff (2) uchod yn gymwys i'r weithred o greu prif ardal newydd llywodraeth leol, o ddiddymu prif ardal bresennol llywodraeth leol neu o uno dwy brif ardal llywodraeth leol neu fwy.

**Dyddiad gweithredol a dyddiad cyfrifyddu Byrddau Iechyd Lleol**

**5**.—(1) Dyddiad gweithredol pob Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlir o dan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yw 1 Hydref 2009.

(2) Dyddiad cyfrifyddu pob Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlir o dan erthygl 3 i'r Gorchymyn hwn yw 31 Mawrth.

**Swyddogaethau cyfyngedig cyn y dyddiad gweithredol**

**6**. Rhwng dyddiad ei sefydlu a'i ddyddiad gweithredol, bydd gan bob Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlir o dan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn y swyddogaethau a ganlyn—

(a) ymrwymo i gontractau'r GIG;

(b) ymrwymo i gontractau eraill gan gynnwys contractau cyflogaeth; ac

(c) gwneud y cyfryw bethau eraill ag sy'n rhesymol angenrheidiol i'w alluogi i ddechrau gweithredu'n foddhaol yn effeithiol o'r dyddiad gweithredol ymlaen.

government area in Wales as set out in Parts I and II of Schedule 4 to the Local Government Act 1972(**1**).

**Establishment of Local Health Boards**

**3**. There are established, with effect from the establishment date, the six Local Health Boards listed in column 1 of Schedule 1 to this Order which have the names assigned to them in that Schedule.

**Local Health Board areas**

**4**.—(1) Each Local Health Board area consists of the principal local government areas assigned to it in column 2 of Schedule 1 to this Order.

(2) If the principal local government areas assigned to a Local Health Board under paragraph (1) above are varied, the Local Health Board area is to be varied accordingly.

(3) Paragraph (2) above does not apply to creation of a new principal local government area, abolition of an existing principal local government area or a merger of two or more principal local government areas.

**Operational date and accounting date of Local Health Boards**

**5**.—(1) The operational date of each Local Health Board established under article 3 to this Order is 1 October 2009.

(2) The accounting date of each Local Health Board established under article 3 to this Order is 31 March.

**Limited functions before operational date**

**6**. Between its establishment date and its operational date, each Local Health Board established under article 3 to this Order will have the functions of —

(a) entering into NHS contracts;

(b) entering into other contracts including contracts of employment; and

(c) doing such other things as are reasonably necessary to enable it to begin to operate satisfactorily with effect from its operational date.

(**1**) 1972 p.70. Amnewidiwyd Rhannau I a II o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru)

(**1**) 1972 c.70. Parts I and II of Schedule 4 to the Local Government Act 1972 were substituted by the Local Government (Wales) Act 1994.

**Diddymiadau**

**7**. Diddymir, yn effeithiol o'r dyddiad diddymu, yr un ar hugain o Fyrddau Iechyd Lleol a restrir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a sefydlwyd gan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003(**1**).

**Diwygiadau i'r Atodlen i Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003**

**8**. Diwygir Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 yn unol ag erthygl 9.

**9**. Yn effeithiol o'r dyddiad diddymu, dileer yr Atodlen i Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 (enwau byrddau iechyd lleol a phrif ardaloedd llywodraeth leol y maent yn cael eu sefydlu ar eu cyfer) a rhodder yn ei lle'r Atodlen yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**Dissolutions**

**7**. The twenty-one Local Health Boards listed in Schedule 2 to this Order which were established by the Local Health Boards (Establishment) (Wales) Order 2003(**1**) are dissolved with effect from the dissolution date.

**Amendments to the Schedule to the Local Health Boards (Establishment) (Wales) Order 2003**

**8**. The Local Health Boards (Establishment) (Wales) Order 2003 is amended in accordance with article 9.

**9**. With effect from the dissolution date delete the Schedule to the Local Health Boards (Establishment) (Wales) Order 2003 (local health board names and principal local government areas for which they are established) and substitute the Schedule in Schedule 3 to this Order.

*Edwina Hart*

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

24 Mawrth 2009

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

24 March 2009

(**1**) O.S. 2003/148 (Cy.18), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/1790 (Cy.186).

(**1**) S.I. 2003/148 (W.18) as amended by S.I. 2006/1790 (W.186).

## ATODLEN 1

Erthyglau 3 a 4

### Enwau Byrddau Iechyd Lleol a Phrif Ardaloedd Llywodraeth Leol y sefydlir hwy ar eu cyfer

| *Colofn 1*<br><br>*Enwau Byrddau Iechyd Lleol a sefydlir o dan erthygl 3* | | *Colofn 2*<br><br>*Prif ardaloedd llywodraeth leol y sefydlir y Bwrdd Iechyd Lleol ar eu cyfer* |
|---|---|---|
| 1 | Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan | Casnewydd, Tor-faen, Sir Fynwy, Caerffili a Blaenau Gwent |
| 2 | Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf | Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf |
| 3 | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Caerdydd a Bro Morgannwg |
| 4 | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe |
| 5 | Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda | Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion |
| 6 | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr | Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Gwynedd, Wrecsam, Conwy ac Ynys Môn |

## SCHEDULE 1

Articles 3 and 4

### Local Health Board Names and Principal Local Government Areas for which they are Established

| *Column 1*<br>*Names of Local Health Boards established under article 3* | | *Column 2*<br>*Principal local government areas for which the Local Health Board is established* |
|---|---|---|
| 1 | Aneurin Bevan Local Health Board | Newport, Torfaen, Monmouthshire, Caerphilly and Blaenau Gwent |
| 2 | Cwm Taf Local Health Board | Merthyr Tydfil and Rhondda Cynon Taf |
| 3 | Cardiff and Vale University Local Health Board | Cardiff and Vale of Glamorgan |
| 4 | Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board | Bridgend, Neath Port Talbot and Swansea |
| 5 | Hywel Dda Local Health Board | Carmarthenshire, Pembrokeshire and Ceredigion |
| 6 | Betsi Cadwaladr University Local Health Board | Flintshire, Denbighshire, Gwynedd, Wrexham, Conwy and Anglesey |

## ATODLEN 2

## Y 21 o Fyrddau Iechyd Lleol a ddiddymir yn effeithiol o 1 Hydref 2009

Erthygl 7

| *Byrddau Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan erthygl 3 o Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003* | |
|---|---|
| 1 | Bwrdd Iechyd Lleol Ynys Môn |
| 2 | Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd |
| 3 | Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd |
| 4 | Bwrdd Iechyd Lleol Ceredigion |
| 5 | Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin |
| 6 | Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych |
| 7 | Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint |
| 8 | Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy |
| 9 | Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro |
| 10 | Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe |
| 11 | Bwrdd Iechyd Lleol Conwy |
| 12 | Bwrdd Iechyd Lleol Blaenau Gwent |
| 13 | Bwrdd Iechyd Lleol Pen-y-bont ar Ogwr |
| 14 | Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Caerffili |
| 15 | Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful |
| 16 | Bwrdd Iechyd Lleol Castell-nedd Port Talbot |
| 17 | Bwrdd Iechyd Lleol Casnewydd |
| 18 | Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf |
| 19 | Bwrdd Iechyd Lleol Tor-faen |
| 20 | Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg |
| 21 | Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam |

## SCHEDULE 2

### 21 Local Health Boards dissolved with effect from 1 October 2009

Article 7

| *Local Health Boards established under article 3 of the Local Health Boards (Establishment) (Wales) Order 2003* | |
|---|---|
| 1 | Anglesey Local Health Board |
| 2 | Gwynedd Local Health Board |
| 3 | Cardiff Local Health Board |
| 4 | Ceredigion Local Health Board |
| 5 | Carmarthenshire Local Health Board |
| 6 | Denbighshire Local Health Board |
| 7 | Flintshire Local Health Board |
| 8 | Monmouthshire Local Health Board |
| 9 | Pembrokeshire Local Health Board |
| 10 | Swansea Local Health Board |
| 11 | Conwy Local Health Board |
| 12 | Blaenau Gwent Local Health Board |
| 13 | Bridgend Local Health Board |
| 14 | Caerphilly Teaching Local Health Board |
| 15 | Merthyr Tydfil Local Health Board |
| 16 | Neath Port Talbot Local Health Board |
| 17 | Newport Local Health Board |
| 18 | Rhondda Cynon Taf Teaching Local Health Board |
| 19 | Torfaen Local Health Board |
| 20 | Vale of Glamorgan Local Health Board |
| 21 | Wrexham Local Health Board |

ATODLEN 3

Erthyglau 8 a 9

"ATODLEN

Erthyglau 3 a 5

Enwau Byrddau Iechyd Lleol a Phrif Ardaloedd Llywodraeth Leol y sefydlir hwy ar eu cyfer

| *Enwau Byrddau Iechyd Lleol a sefydlir o dan erthygl 3* | | *Y brif ardal llywodraeth leol y sefydlir y Bwrdd Iechyd Lleol ar ei chyfer* |
|---|---|---|
| 1 | Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys | Powys |

"

## SCHEDULE 3

Articles 8 and 9

## "SCHEDULE

Articles 3 and 5

### Local Health Board Names and Principal Local Government Areas for which they are established

| *Names of Local Health Boards established under article 3* | | *Principal local government area for which the Local Health Board is established* |
|---|---|---|
| 1 | Powys Teaching Local Health Board | Powys |

"

© Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2009

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 778 (Cy.66)

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No 778 (W.66)

## NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The Local Health Boards (Establishment and Dissolution) (Wales) Order 2009

**£5.50**

W535/09/09 ON